yn rhoi cartref i fyd natur

Darganfod bywyd gwyllt mewn dŵr croyw

Mae pyllau, afonydd a nentydd yn llawn bywyd gwyllt. Ond dydy popeth ddim yn y dŵr chwaith.

Ar y glannau

- Chwilia am greaduriaid sy'n hedfan, porthi a gorffwys ar lannau'r dŵr.
- **Gwas y neidr.** Mae ei adenydd ar led.
- **Mursen.** Mae ei hadenydd wedi troi am i mewn wrth ei chorff.
- Oes unrhyw beth yn dod i yfed, fel aderyn, gwenynen neu wenynen feirch?

Pryfed ar wyneb y dŵr

- Mae rhai pryfed yn glanio ar wyneb y dŵr ac yn mynd yn sownd. Mae rhai wedi addasu i gerdded ar y dŵr ac yn bwyta'r rhai sydd wedi mynd yn sownd.
- **Sglefriwr y llyn.** Mae blew arbennig ar ei draed yn dal aer, felly mae'n arnofio dros wyneb y dŵr.
- **Chwyrligwgan.** Gwylia'r chwilen yn troelli rownd a rownd. Mae hanner ei llygaid enfawr yn gweld o dan y dŵr a hanner yn gweld uwch ben y dŵr.
- **Cychwr cefnwyn.** Mae'n dod i fyny o dan y dŵr i drywanu ei ysglyfaeth ac yn sugno ei berfedd allan!

O dan y dŵr

- Mae'r holl greaduriaid o dan y dŵr yn bwyta planhigion neu ei gilydd. **Mae'n lle peryglus!**

Gwas y neidr

Madfall ddŵr gyffredin

Penbwl

Mursen

Sglefriwr y llyn

Cychwr cefnwyn

Crothell

Gweithgaredd
Ysgrifenna atom ni i ddweud beth rwyt ti wedi dod o hyd iddo.

Gweithgareddau Gwyllt!

www.rspb.org.uk/wildchallenge
Cofrestra i ennill gwobrau!

Sialens Wyllt

Mae RSPB yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr 207076, ac yn yr Alban SC037654. 382-1139-18-19. Gwas y neidr a madfall ddŵr gyffredin gan Ben Andrew, mursen gan Jodie Randall, sglefriwr y llyn gan Richard Revels, cychwr cefnwyn gan Neil Phillips, penbwl a chrothell gan RSPB (pob llun yn rspb-images.com), buwch goch gota, esgidiau glaw a phridd gan iStockphoto.com a chwyddwydr gan dreamstime.com